

Meddygfa Waunfawr

Cofrestru fel Claf gyda Phractis Meddygon Teulu

Mae'r practis hwn yn derbyn cleifion sydd wedi symud i'n dalgylch neu sy'n byw yn ein dalgylch.

Ffurflenni Cofrestru a Phrawf Adnabod a Chyfeiriad

I gofrestru fel claf, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru GMS1W a darparu eich rhif GIG yn ogystal â phrawf adnabod a thystiolaeth eich bod yn byw'n barhaol mewn cyfeiriad yn ardal ein practis at ddiben sefydlog (mae'r Dogfennau Adnabod derbyniol wedi'u rhestru isod).

Bydd angen i unigolion sy'n dymuno cofrestru gyda'r practis dros dro, tra eu bod i ffwrdd o'u cyfeiriad parhaol yn y Deyrnas Unedig, hefyd ddarparu manylion llawn eu meddyg a'u meddygfa arferol. Efallai y bydd angen i ni gysylltu â'ch meddyg arferol fel rhan o unrhyw driniaeth a ddarparwn i chi a bydd angen i ni anfon unrhyw fanylion iddynt wedi hynny, i sicrhau y caiff eich cofnodion meddygol eu diweddarau.

Gofynnwn i chi ddarparu rhif cyswllt yn ystod y dydd yn ogystal â'ch rhif ffôn cartref oherwydd efallai y bydd adegau pan fydd angen i ni gysylltu â chi'n ddiymdroi yn ystod oriau agor. Mae'n ofynnol i unrhyw newidiadau yn eich manylion personol, fel eich enw, cyfeiriad, rhifau ffôn cyswllt ac ati, gael eu rhoi i'r practis yn ddiymdroi.

Mae gofyn i unrhyw gleifion sydd newydd gofrestru gael eu gweld gan nyrs y practis i dderbyn asesiad cyffredinol, cyn bod eu cofrestriad wedi'i gwblhau.

Pe byddwch yn symud i ardal y tu allan i ffiniau'r practis, bydd angen i chi gofrestru â phractis newydd sy'n fwy lleol i'ch cyfeiriad newydd, a chaiff llythyr hysbysiad 28 diwrnod ei roi.

Prawf Adnabod Enw	Prawf o Gyfeiriad
<ul style="list-style-type: none">• Pasbort llawn cyfredol wedi'i lofnodi• Trwydded yrru gyfredol y DU ac arni eich llun• Bathodyn glas gywyr anabl• Hysbysiad treth cyfredol HMRC e.e. cod PAYE, datganiad o gyfrif (nid yw P45 a P60 yn ddogfennau swyddogol HMRC)• Tystysgrif dryll neu arf tanio• Dogfennau teithio wedi'u cyhoeddi i wladolion tramor y rhoddwyd caniatâd iddynt aros yn y DU• Trwydded breswyl wedi'i chyhoeddi gan y Swyddfa Gartref i wladolion yr UE	<ul style="list-style-type: none">• Trwydded yrru gyfredol y DU• Bill cyfleustodau diweddar• Bil treth Awdurdod Lleol ar gyfer y flwyddyn bresennol• Cyfriflen cerdyn credyd / siop• Cyfriflen morgais• Cerdyn rhent cyngor lleol• Cytundeb tenantiaeth• Llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau prynu'r eiddo yn ddiweddar• Llythyr oddi wrth eich rheolwr banc yn cadarnhau bod eich cyfeiriad preswyl yn ddilys a chywir i ategu unrhyw gyfriflen banc ar y we / wedi'i

<ul style="list-style-type: none"> • Cerdyn adnabod aelod-wladwriaethau'r UE / Ardal Economaidd Ewropeaidd 	<p>hargraffu a ddarperir</p>
---	------------------------------

Bydd angen i blant o dan 16 oed y mae eu rhiant/gwarcheidwad wedi cofrestru gyda'r practis / yn cofrestru yr un pryd â hwy, ddarparu un o'r canlynol

- Tystysgrif geni wreiddiol neu gopi ardystiedig
- Pasbort llawn cyfredol wedi'i lofnodi

Hawl i Driniaeth y GIG

Noder bod y practis hwn yn dilyn y canllawiau canlynol:

Mae'r hawl i driniaeth y GIG am ddim yn seiliedig ar **breswyllo** ac nid ar unrhyw gyfraniadau yswiriant gwladol neu dreth blaenorol a ph'un a ydych chi'n ddeiliad pasbort y Deyrnas Unedig ai peidio. Nid yw meddu ar rif GIG yn golygu bod triniaeth y GIG ar gael am ddim.

Mae angen prawf adnabod a phrawf o gyfeiriad (fel sydd wedi'i ddisgrifio uchod).

Preswylwyr y Deyrnas Unedig

Os ydych wedi sefydlu prif breswylad yn ardal ein practis, mae gennych hawl i wneud cais i gael eich cofrestru'n barhaol gyda'r practis fel claf GIG neu breifat.

Dinasyddion y Deyrnas Unedig sy'n byw dramor

Os ydych yn byw dramor ran fwyaf o'r flwyddyn nid oes gennych hawl i barhau i fod wedi cofrestru gyda'r practis hwn. Rhaid i unrhyw un sy'n gadael y Deyrnas Unedig gyda'r bwriad o fyw dramor am gyfnod o 90 diwrnod neu fwy hysbysu'r practis o hyn ymlaen llaw. Pe byddech yn mynd yn sâl wrth ddychwelyd ar ymweliad bydd gennych hawl i ofal brys, pe byddai'r Practis yn barnu bod hyn yn angenrheidiol ,o dan gofrestriad dros dro â Meddyg Teulu'r GIG. Gweler isod hefyd os ydych yn breswilydd yn un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Preswylwyr yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

Os nad oes gennych brif breswylad yn ardal ein practis mae gennych yr hawl i "unrhyw ofal angenrheidiol" ar gyfer cyflyrau cronig gan gynnwys monitro arferol ar gyfer cyflyrau presennol. Mae hyn yn cynnwys y mathau canlynol o wasanaethau gofal iechyd Meddyg Teulu: profion gwaed, gwiriadau pwysedd gwaed, gofal mamolaeth arferol, gwiriadau colesterol, inswlin, ocsigen, dialysis arenol a phrofion warffarin. Bydd angen i ymwelwyr ddangos eu Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd. At ddibenion y canllawiau hyn, gall ymwelwyr o weddill y Deyrnas Unedig gael eu cynnwys yn y categori hwn.

Ymwelwyr Tramor

Mae hyn yn berthnasol i gleifion nad ydynt yn breswylwyr yn un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd nac yn breswylwyr mewn gwlad sydd â chytundeb gofal iechyd dwyochrog â'r Deyrnas Unedig.

Os nad oes gennych brif breswylad yn ardal ein practis nid ydych yn gymwys i dderbyn triniaeth y GIG am ddim yn y practis hwn ac ni allwch gofrestru gyda'r practis fel claf y GIG ond fe allech gofrestru'n breifat. Yr unig eithriad i hyn yw os oes arnoch angen triniaeth frys

neu driniaeth sydd ei hangen ar unwaith, a gaiff ei darparu am ddim a gallech wedyn gofrestru fel claf dros dro y GIG. Bydd y Meddyg Teulu yn penderfynu a yw eich cyflwr yn gorwedd yn y categori hwn i ganiatáu ichi gofrestru fel claf dros dro y GIG. Fodd bynnag, gallech bob amser gael eich trin fel claf preifat drwy gofrestru gyda'r practis fel claf preifat a chytuno i dalu'r taliadau angenrheidiol cyn derbyn y driniaeth.

Ceiswyr Lloches Cofrestredig

Mae gan geiswyr lloches cofrestredig yr hawl i wasanaethau'r GIG am ddim, yn ddibynnol ar ddarparu tystiolaeth, drwy gydol cyfnod y broses ymgeisio, gan gynnwys unrhyw apeliadau. Mae gan unrhyw berson sydd wedi derbyn statws ffoadur hefyd yr hawl i wasanaethau'r GIG am ddim.

Gwasanaethau Ysbyty

Noder y gallai fod yn rhaid i Ymwelwyr Tramor dalu am rai gwasanaethau ysbyty penodol. Gweler taflen wybodaeth i gleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n rhoi cyngor ar ba wasanaethau ysbyty sydd am ddim i ymwelwyr tramor a pha rai y mae'n rhaid talu amdanynt. Hefyd, mae'r daflen yn rhestru gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r gwledydd hynny sydd â chytundebau gofal iechyd dwyochrog â'r Deyrnas Unedig. Mae'r daflen hon ar gael o dderbynfa eich Practis Meddygon Teulu.

Beth Sy'n Digwydd Nesaf

- Byddwn yn gofyn i chi ddod i Wiriad Claf Newydd gyda Nyrs y Practis neu Gynorthwydd Gofal Iechyd. Bydd y gwiriad hwn yn canfod eich manylion personol a meddygol cyfredol i sicrhau bod gennym yr holl fanylion perthnasol ar gael cyn gynted â phosibl.
- Dewch â'ch holl feddyginiaeth bresennol / rhestr bresgripsiwn gyda chi.
- Plant o dan 16 oed – dewch â rhestr o'ch holl imiwneiddiadau cyfredol gyda chi.
- Ar ôl o hyn gael ei wneud, caiff eich cais cofrestru llawn ei brosesu a gwneir cais i adalw unrhyw gofnodion meddygol o'ch meddygfa flaenorol – gallai hyn gymryd hyd at 6 wythnos.